OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1739 (Cy.171)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*1 Gorffennaf 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*3 Gorffennaf 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 1 Awst 2008.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"mae "cyfnod sylfaen" ("*foundation stage*") i'w ddehongli yn unol ag adran 102 o Ddeddf Addysg 2002(**4**)

(3) Yn rheoliad 5 yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y blynyddoedd ysgol 2008—2009 a 2009—2010 a gaiff ei neilltuo (yn llwyr neu yn bennaf) i ddarparu hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy.311).

(**4**) 2002 p.32. Mae O.S. 2008/1732 (Cy.169) yn pennu beth yw cyfnod y cyfnod sylfaen.